# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 30 Mai 2002

**R – yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Faint o arian a roddwyd mewn grant cymorth refeniw yn ystod 2001/02 i ysgolion yng Nghymru. (WAQ18172)

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Faint o arian oedd ar gael yn ystod 2001/02 o dan grantiau uniongyrchol ar gyfer ysgolion yng Nghymru. (WAQ18173)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alison Halford (Delyn);** A yw Countryside Properties wedi gwneud unrhyw gyfraniad ariannol i brosiect Ffordd Fynediad y Clwb Hwylio a gychwynnwyd gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd trwy ddefnyddio grant o £500,000, ac sydd bellach yn agor y ffordd i ddatblygiadau sylweddol yn yr ardal gyfagos. (WAQ18178)

**Alison Halford (Delyn);** Faint wariodd Awdurdod Datblygu Cymru ar Fae Caerdydd yn ystod 2000-1 a 2001-2. (WAQ18179)

**Alison Halford (Delyn);** I gyfeirio'n ôl at WAQ17680, a wnaiff y Gweinidog ddiffinio'n union beth mae'n ei olygu wrth 'pan fo'n briodol'. (WAQ18180)

**Alison Halford (Delyn);** I gyfeirio'n ôl at WAQ17682, pa faterion penodol a godwyd yn y cyfarfod diwethaf rhwng eich swyddogion a Staff Awdurdod Harbwr Caerdydd. (WAQ18181)

**Alison Halford (Delyn);** I gyfeirio'n ôl at WAQ17682, a wnaiff y Gweinidog addo y bydd cynnwys yr 'adolygiadau rheolaidd' a dderbyniodd ynghylch Awdurdod Harbwr Caerdydd ar gael i aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. (WAQ18182)

**Alison Halford (Delyn);** I ymhelaethu ar WAQ17682, a yw'r Gweinidog wedi cwrdd bellach â Chadeirydd/staff/aelodau Awdurdod Harbwr Caerdydd. (WAQ18183)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ofyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gyhoeddi’r asesiad o gynefinoedd, a gyflwynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn perthynas ag Aber yr Afon Hafren. (WAQ18171)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd y mae’r Gweinidog yn disgwyl gwneud penderfyniad am gais Amersham i amrywio’u caniatâd i waredu gwastraff ymbelydrol, o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993. (WAQ18174)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfrifoldebau sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran ymgynghori ar eu hasesiad o gynefinoedd mewn perthynas ag Aber yr Afon Hafren. (WAQ18175)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o gyngor gwyddonol a meddygol, sy’n annibynnol ar gyrff cyhoeddus a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a gaiff ei ddefnyddio wrth benderfynu a ddylid cytuno i gais Amersham i amrywio lefelau’r gollyngiadau ymbelydrol. (WAQ18176)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa waith a wnaed ar Fferm Fforest, o ran mesur yr effaith ar yr amgylchedd, er mwyn asesu effaith bresennol gollyngiadau ymbelydrol Amersham. (WAQ18177)